CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Mai 2018, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, C Jones, D Morgan, A C Jones, W Williams, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn, D Roberts, D ap Rhobert, A Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D Pritchard. Cynigodd Cyng Pritchard croeso i pawb.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 17.04.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Morgan yn cynnig a Cyng W Vaughan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru i wneud a symud y plac o Eglwys Llanddyfnan i'r gofeb.
4.2	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir am symud yr arwydd at cyfeiriad Llangefni
4.3	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru
4.4	**Lloches Bws** - Nid yw R P O Williams Wedi dod yn ôl at y Clerc gyda pris gosod concrid. Dywedodd y Clerc bod y cwmni sydd yn gosod a symud y llochesi bws wedi cynnig gwneud y gwaith concrid am o gwmpas £900. Cytunwyd i symud ymlaen.
4.5	**Cwynion am cyflwr Lôn Bodffordd - Lôn Llanerchymedd** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.6	**Tregaian - Capel Coch** - twll yn y lôn - mae'r gwaith wedi cael ei wneud
4.7	**Problemau gyda BT Broadband** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan BT.
4.8	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir i gofyn a oes gan y Cyngor Cymuned yr hawl i agor a cynnal y llwbyr
4.9	**Ffoes wrth ymyl yr Eglwys, Talwrn** - Mae'r Cyngor Sir wedi paratoi cynllun i symud y mater ymlaen
	Llofnod…….Cadeirydd 19.06.18

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Palmentydd Llangwyllog. Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir yn dweud nid oes arian ar gael. Awgrymwyd Cyng Pritchard bod preswylwyr Llangwyllog yn trefnu deiseb am palmentydd a bydd y Clerc yn anfon y deiseb i'r Cyngor Sir gyda copi i Rhun ap Iorwerth
5.2	Adroddiad Llifogydd Llys yr Efail, Talwrn - gweler 4.9
	Cynllunio
5.3	23C350 Cais llawn ar gyfer codi sied yn Llain Helyg Bach, Tregaian - cytunwyd i gofyn am mwy o fanylion - pwrpas y sied
5.4	23C351 cais llawn ar gyfer codi stablau a chreu menage ynghyd a cloi mynedfa presennol a chreu mynedfa newydd i gerbydau yn Bryn Gors, Cefniwrch - dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Palmentydd yn Llangwyllog - gweler 5.1
8.2	Baw ceffyl - Mae'r Clerc wedi cysylltu a'r perchennog gan ofyn iddo glirio ar ôl ei geffyl
8.3	Coed angen ei dorri o gwmpas lamp (rhif 5) wrth ymyl Bodlondeb (hefyd lamp wrth ymyl Hafod y Coed). Mae'r mater wedi codi o'r blaen. Gofynwyd i'r Clerc i wneud cwyn i'r Cyngor Sir
8.4	Ail ymgynghoriad Ysgol Talwrn. Cytunwyd i ail gyflwyno sylwadau y Cyngor
8.5	Bydd y Clerc yn mynd i'r ysbyty mis nesaf am llaw-driniaeth a bydd angen amser i wella. Cytunwyd i peidio cynnal cyarfod ym mis Gorffennaf (yn lle mis Awst)
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Hysbysffwrdd Talwrn
9.2	Maes y Coed, Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 19.06.18